COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD MAWRTH, 9 MAI 2023, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

175. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

176. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo’r cofnodion dyddiedig 11/04/2023 fel cofnod gwir a chywir.

177. POLISI RHEOLI RISG CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi ei ddiweddaru.

Eglurodd fod y polisi wedi ei ddiweddaru yn Atodiad A yr adroddiad yn nodi'r archwaeth am risg, neu’r graddau o risg yr oedd y Cyngor yn barod i'w oddef ar draws ystod eang ei weithgareddau.

Dywedodd nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r Polisi Rheoli Risg, ond bod y polisi wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu cyflwyno rhaglen feddalwedd rheoli risg fyddai'n cael ei rhoi ar waith yn chwarter 2 blwyddyn ariannol 2023-24.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau yr adroddiad a’r tryloywder yr oedd yn ei gynnig. Ychwanegodd fod y polisi yn galluogi Aelodau i ddeall proses rheoli risg y Cyngor ac y byddai'r feddalwedd newydd yn darparu rhywfaint o ddata defnyddiol i gyfrannu at reoli risg.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd sut yr oedd y gofrestr risg ranbarthol yn cael ei hymgorffori yn y polisi hwn. Eglurodd y Prif Swyddog pan fyddai’r asesiad risg corfforaethol wedi cael ei ddiweddaru, y byddai’r Swyddogion yn sicrhau bod y materion allweddol yn eu maes gwasanaeth yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad risg corfforaethol ac y byddai hyn yn cynnwys y materion a godwyd ar lefel ranbarthol.

Rhoddodd sicrwydd y câi risgiau rhanbarthol eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Risg Corfforaethol pe baent yn effeithio ar CBSP.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod hyn yn bwysig o ystyried pwysigrwydd cynyddol rôl y trefniadau partneriaeth rhanbarthol. Gofynnodd gyda golwg ar yr amserlen a oeddem yn cadw at yr amser. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid ein bod ar amser a bod yr Asesiad Risg Corfforaethol i gael ei dderbyn yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar hyd at ddwy risg yn fanwl a bydd y Brif Swyddfa berthnasol yn amlinellu'r risg a'r camau lliniaru i fynd i'r afael â'r risg honno.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi ei ddiweddaru.

178. POLISI RHEOLAETH ARIANNOL GRANTIAU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Rheolaeth Ariannol Grantiau wedi ei ddiweddaru yn Atodiad A, ac i gadarnhau llofnodwyr awdurdodedig cyllid ar gyfer cymeradwyo derbyn grant ar ran y Cyngor. Esboniodd fod Polisi Rheolaeth Ariannol Grantiau cyfredol y Cyngor, oedd yn ei le, wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet yn 2019.

Tynnodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid sylw at gymwysiadau allweddol y Polisi Rheolaeth Ariannol Grantiau, a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad. Rhoddodd grynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad Archwilio a'r gwersi o ddatganiad perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, a nodwyd yn adran 11 o Atodiad 1.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau yr adroddiad a dywedodd ei fod yn rhoi tryloywder i'r Polisi. Nodai'r adroddiad archwilio risgiau isel ond roedd y rhain wedi cael eu hadlewyrchu yn y polisi pan gafodd ei ddiweddaru. Ategodd yr Arweinydd y sylwadau hyn ac ychwanegodd ei fod yn falch o weld bod ein blaenoriaethau corfforaethol diweddaraf yn cael eu hadlewyrchu yn hyn.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am sicrwydd bod ein prosesau'n gymesur â lefelau'r cyllid yr oedd cais yn cael ei wneud amdano, gan roi enghraifft o swm bach o arian oedd yn gofyn am lofnodi contract. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid sicrwydd ynghylch hyn.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd hyn a rhoddodd enghraifft o arian grant a ddarparwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr i sefydliad a oedd â phrosesau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd tra hefyd mor ddi-dor â phosibl.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Rheolaeth Ariannol Grantiau yn Atodiad A a'r rhestr o swyddogion cyllid yn unol â pharagraff 4.3.

179. ADOLYGIAD O BARTNERIAETHAU DIOGELWCH CYMUNEDOL YNG NGHWM TAF MORGANNWG

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am ganfyddiadau'r adolygiad o drefniadau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg (Atodiad A) a'u goblygiadau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth i ni geisio dod yn un Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf Morgannwg a chymeradwyo mewn egwyddor uno Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid gefndir i'r adroddiad fel y nodir yn adran 3. Ychwanegodd fod 9 argymhelliad penodol wedi cael eu nodi yn yr adolygiad a bod y rhain wedi cael eu cynnwys yn 4.1 o'r adroddiad.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Adfywio yr adroddiad ond roedd yn bryderus ein bod yn ymestyn yn rhy eang. Mae'r trefniadau presennol yn canolbwyntio ar Ben-y-bont ar Ogwr yn unig ac yn gweithio'n dda ac ofnai y gallem golli'r cysylltiad personol/lleol gyda'r preswylwyr. Dywedodd hefyd ein bod wedi derbyn grant o £750,000 i'w ddefnyddio tuag at gamerâu teledu cylch cyfyng a chymorth ar gyfer hyfforddiant i fenywod. A ydym yn mynd i wanhau hynny hefyd drwy ehangu i'r rhanbarth ehangach.

Sicrhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y Cabinet fod gennym nifer o drefniadau partneriaeth rhanbarthol eraill fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a bod gan y rhain strategaethau cyffredin oedd yn canolbwyntio ar faterion ac anghenion lleol ac y byddai hyn yn parhau gyda threfniadau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol hon hefyd. Yn dilyn trafodaethau pellach, gofynnodd Aelodau'r Cabinet i adroddiad pellach gael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law, fyddai'n cynnwys trefniadau craffu a chynlluniau ar gyfer delio ag eithafiaeth a gwrthderfysgaeth.

<u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cabinet:

1. yn nodi'r adolygiad o drefniadau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac yn cymeradwyo mewn egwyddor uno Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr;

2. yn nodi y caiff adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet i ystyried cefnogaeth a threfniadau strwythur;

3. yn cytuno i dderbyn adroddiad diweddaru fyddai'n edrych ar drefniadau craffu yn ogystal â threfniadau lleol a chynlluniau ar gyfer delio ag eithafiaeth a gwrthderfysgaeth.

## 180. <u>RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - CANLYNIAD PROSES YMGYNGHORI YSGOL GYNRADD COETY</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad oedd yn gwneud y canlynol:

- hysbysu'r Cabinet am ganlyniad yr ymgynghoriad ynghylch ehangu Ysgol Gynradd Coety;

- cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad mewn adroddiad ymgynghori manwl (Atodiad A);

- gofyn am benderfyniad ynghylch y canlynol mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Coety:

- gofyn am gymeradwyaeth i naill ai cyhoeddi'r cynigion gydag addasiadau neu hebddynt a chyhoeddi hysbysiad cyhoeddus fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018;

- rhoi'r gorau i'r cynigion; neu

- ailwampio'r cynigion yn sylweddol ac ail-ymgynghori ar y dewisiadau canlynol:

    - newid categori iaith yr Ysgol i gyfrwng Cymraeg; neu
    - newid categori iaith yr Ysgol i ddwyieithog.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod Ysgol Gynradd Coety, oedd yn ysgol gyda dau ddosbarth mynediad wedi ei lleoli ar Barc Derwen, wedi cael ei hadeiladu yn ystod Band A y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a'i hagor ym mis Tachwedd 2015. Ers hynny, adeiladwyd datblygiadau tai ym Mharc Derwen oedd yn golygu bod angen estyniad i Ysgol Gynradd Coety.

Ar 15 Mehefin 2022, cafwyd cymeradwyaeth y Cyngor i gynnwys y cynllun yn y rhaglen gyfalaf a defnyddio adnoddau cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) i ariannu’r estyniad. Unwaith y byddai’r cyfraniad adran 106 wedi dod i law (tua £300 mil i gyd), byddai’r cyllid hwn yn disodli rhywfaint o gyllid CBSP. Roedd cefndir pellach yn adran 3 yr adroddiad.

Esboniodd fod y ddarpariaeth feithrin wedi cael ei hadolygu cyn dechrau'r ymgynghoriad a bod y wybodaeth am hyn wedi cael ei nodi yn 4.1 o'r adroddiad. Mae'r cynnig i ehangu'r ysgol yn rhan o strategaeth ehangach i gynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion i wasanaethu ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr ac mae strategaeth fesul cam wedi cael ei mabwysiadu i ehangu'r ddarpariaeth gynradd fel y nodir yn 4.2 yr adroddiad. Roedd rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd i’w gweld yn adran 4 yr adroddiad. Ychwanegodd fod angen ystyried yn neilltuol hefyd p’un ai am addysg gyfrwng Cymraeg ynteu am addysg Saesneg yr oedd y galw yng Ngogledd Ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr fel yr amlinellwyd yn 4.6 yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod crynodeb o’r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymatebion yr awdurdod lleol wedi cael eu darparu yn yr adroddiad ymgynghori fel y manylir arno yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Byddai angen i'r Cabinet ystyried yr adroddiad ymgynghori a phenderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Pe bai'r Cabinet yn dymuno symud ymlaen â'r cynnig, cam nesaf y broses fyddai cyhoeddi hysbysiad statudol yn amlinellu'r cynnig, y byddai angen ei gyhoeddi am gyfnod o 28 diwrnod. Câi gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol eu gwahodd yn ystod y cyfnod hwn.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Addysg yr adroddiad a diolchodd i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn ogystal â Chynrychiolwyr Fforwm y Gymraeg mewn Addysg oedd yn gweithio gyda CBSP yn ein hymrwymiad i Addysg Gyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref. Rydym hefyd wedi ystyried yr asesiad effaith ar y Gymraeg yn ofalus i sicrhau ein bod yn cynnig darpariaeth ragorol i blant yn y lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, ar ôl darllen yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, a allai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol amlinellu'r hyn yr ydym yn ei wneud i gynnig dewis cyfartal o addysg gyfrwng Cymraeg a Saesneg yn rhanbarth Coety a Gorllewin Bracla.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod ar ddisgyblion o ardal Coety yn draddodiadol eisiau addysg gyfrwng Cymraeg a'u bod yn mynychu Ysgol Bro Ogwr. Fel rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion Band B, rhoddwyd cymeradwyaeth y Cabinet i wneud newid rheoledig i Ysgol Bro Ogwr yn ffurf ehangu. Bydd yr ysgol newydd yn derbyn 2.5 dosbarth y flwyddyn gyda 225 o leoedd i ddisgyblion yn ogystal â dosbarth meithrin a dosbarth arsylwi ac asesu. Caiff yr ysgol ei hadeiladu wrth dir Ffordd Cadfan sydd yn nalgylch Ysgol Gynradd Coety.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd mewn perthynas ag agweddau eraill ar fywyd ysgol a oeddem yn ôl-osod yn unrhyw le. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd ein bod yn gwneud hyn ac mai un nod oedd edrych ar y ffordd i wneud gwell defnydd o adnoddau yn yr ysgol gan gynnwys y Cae 4G a newidiadau i neuadd yr ysgol er mwyn darparu'n well ar gyfer mentrau sydd wedi cael eu cynllunio yno.

Gofynnodd yr Arweinydd a ymgynghorwyd ag ESTYN ynghylch y broses hon. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd yr ymgynghorwyd â hwy ac nad oeddent wedi codi unrhyw faterion na phryderon ynghylch y cynigion.

Gofynnodd yr Arweinydd am gadarnhad ynglŷn â'r camau y mae Ysgol Gynradd Coety wedi eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod Ysgol Gynradd Coety, ymhlith dros 15 o ysgolion eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wedi ennill gwobr Cymraeg Campus a roddir i ysgolion sy'n dangos ymdrech arbennig o gadarnhaol i hyrwyddo'r Gymraeg.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad ynghylch ehangu arfaethedig Ysgol Gynradd Coety;
- yn cymeradwyo cyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad **(**Atodiad A**)**.

181. DYDDIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER CYFARFODYDD Y CABINET, CYDRADDOLDEB PWYLLGORAU'R CABINET A RHIANTA CORFFORAETHOL PWYLLGOR Y CABINET

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyo rhaglen dyddiadau cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet a Phwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2023 – 2024.

Nododd y gallai Cyfarfod Cyllideb y Cabinet, oedd wedi ei drefnu ar gyfer 20 Chwefror 2024 gael ei newid, am ei fod yn dibynnu ar amserlen Setliad Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Adfywio yr adroddiad ac roedd yn falch o weld bod gwyliau'r ysgol yn cael eu hosgoi lle roedd modd. Dywedodd fod gan lawer o Swyddogion ac Aelodau blant a'i bod yn anodd ar adegau sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r rhaglen o ddyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y Cabinet, Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet a Phwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.1 yr adroddiad hwn.

182. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 4:00pm